CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Nodyn Polisi Caffael Cymru WPPN 03/24: Newidiadau i brosesau'n dilyn y DU yn dod yn aelod o'r CPTPP

Mae'r WPPN hwn yn hysbysu am fân newidiadau i'r broses ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau ar GwerthwchiGymru. Mae hyn oherwydd bod y DU yn dod yn aelod o Gytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 17 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Nodau llesiant** (https://www.llyw.cymru#161419)

**Pwyntiau i'w nodi** (https://www.llyw.cymru#161421)

**Diben** (https://www.llyw.cymru#161423)

**Lledaenu a chwmpas** (https://www.llyw.cymru#161425)

**Cefndir** (https://www.llyw.cymru#161427)

**Deddfwriaeth** (https://www.llyw.cymru#161429)

**Amseriad** (https://www.llyw.cymru#161431)

**Perthnasedd Datganiad Polisi Caffael** (https://www.llyw.cymru#161433)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru#161435)

**Cyfeiriadau** (https://www.llyw.cymru#161437)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Mae’r Nodyn Polisi Caffael hwn yn cefnogi nodau llesiant Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol




- Cymru sy'n gyfrifo ar lefel fyd-eang

# Pwyntiau i'w nodi

- Nid yw’r wybodaeth yn y ddogfen hon yn gyngor cyfreithiol nac yn ganllawiau statudol ac ni fwriedir iddi fod yn gynhwysfawr. Nid yw ychwaith wedi’i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

bwriadu i ddiystyru rhwymedigaethau cyfreithiol presennol sy'n berthnasol i gyrff Sector Cyhoeddus Cymru – dylai partïon sy'n contractio geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain fel y bo'n briodol. Sylwer hefyd bod y gyfraith yn gallu newid yn gyson ac y dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Rhagfyr 2024.

- Mae Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) yn adeiladu ar, ac yn gyson â, Datganiad Polisi Caffael Cymru a'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (SI 2015/102) (PCR 2015) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 (SI 2020/1319).
- Mae'r nodyn felly'n tybio lefel benodol o wybodaeth am gaffael cyhoeddus. Mae ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru **LLYW.CYMRU** (https://www.llyw.cymru/nodiadau-polisi-caffael) a dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at **PolisiMasnachol@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:PolisiMasnachol@llyw.cymru) neu drwy **wasanaethau i gwsmeriaid Llywodraeth Cymru** (https://www.llyw.cymru/cysylltu-llywodraeth-cymru).

# 1. Diben neu fater

Mae'r WPPN hwn yn hysbysu am fân newidiadau i'r broses ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau ar GwerthwchiGymru o ganlyniad i'r DU yn dod yn aelod o Gytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP). Mae angen y newidiadau hyn er mwyn cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol, a byddant yn dod i rym ar 15 Rhagfyr 2024.

# 2. Lledaenu a chwmpas

Cyhoeddwyd y Nodyn Polisi hwn i fod o gymorth i bob Awdurdod Contractio yng Nghymru (WCAau), gan gynnwys adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff GIG

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'r WPPN hwn yn cynnwys contractau nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n cael eu darparu yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn dosbarthu'r WPPN hwn ar draws eich sefydliad ac i sefydliadau perthnasol eraill rydych yn gyfrifol amdanynt, gan dynnu sylw penodol y rheini sydd mewn rolau caffael, masnachol a chyllid ato.

# 3. Cefndir ac arweiniad

Mae aelodaeth y DU o'r CPTPP wedi golygu bod angen mân newidiadau i'r broses ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contractau sy'n gysylltiedig â chontractau sy'n ddarostyngedig i'r cytundeb hwn.

Ar hyn o bryd mae gan WCAau yr opsiwn i restru gwerth y tendrau uchaf ac isaf a dderbyniwyd mewn hysbysiad dyfarnu contract, yn hytrach na gwerth gwirioneddol y contract. Er mwyn cydymffurfio â thelerau'r CPTPP, bydd yr opsiwn hwn yn cael ei ddileu mewn perthynas â chaffaeliadau a reoleiddir o werth uwch o 15 Rhagfyr 2024, a bydd yn ofynnol i WCAau restru gwerth gwirioneddol y contract amcangyfrifedig.

O 15 Rhagfyr 2024, wrth gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract, mae'n ofynnol i WCAau hefyd wneud nodyn yn tynnu sylw at y ffaith bod y tendr yn ddarostyngedig i'r CPTPP. Dylid cynnwys hyn o dan adran VI.3 'Gwybodaeth ychwanegol' drwy ychwanegu'r testun 'yn ddarostyngedig i'r CPTPP' wrth gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract ar GwerthwchiGymru.

Gall WCA benderfynu a yw'r caffaeliad yn ddarostyngedig drwy ddarllen **Atodiad 15-A** (https://assets.publishing.service.gov.uk/media/64b3e69d48826b00103a9ec7/annex_15-A_schedule_of_the_united_kingdom.pdf) o gytundeb y CPTPP, sy'n nodi pa endidau, nwyddau a gwasanaethau y mae'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

berthnasol iddynt, a'r trothwyon y mae'n rhaid i'r caffaeliad fod yn gyfartal â nhw neu'n uwch na nhw.

# 4. Deddfwriaeth

Mae aelodaeth y DU o'r CPTPP wedi golygu bod angen mân newidiadau gweithdrefnol i'r rheolau sy'n rheoli dyfarnu contractau sy'n ddarostyngedig i'r cytundebau hynny. Gweithredir y newidiadau hyn drwy newidiadau i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 a Rheoliadau Contractau Consesiynau 2016. Mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud gan Ddeddf Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth Traws-Môr Tawel) 2024, ac maent yn dod i rym o'r dyddiad y daeth y CPTPP i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig. Hynny yw 15 Rhagfyr 2024.

# 5. Amseriad

Mae'r WPPN yn weithredol o’r dyddiad cyhoeddi hyd nes y bydd yn cael ei ddisodli neu ei ganslo.

# 6. Perthnasedd Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS)

Mae'r WPPN hwn yn cyd-fynd **â'r holl egwyddorion** (https://www.llyw.cymru/datganiad-polisi-caffael-html#64620) sydd wedi'u cynnwys yn **Natganiad Polisi Caffael Cymru** (https://www.llyw.cymru/datganiad-polisi-caffael-cymru).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# 7. Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y WPPN hwn, cysylltwch â: Polisi Masnachol **PolisiMasnachol@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:PolisiMasnachol@llyw.cymru)

# 8. Cyfeiriadau

**The UK's accession to the Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership (CPTPP)** (https://www.gov.uk/government/collections/the-uks-accession-to-the-comprehensive-and-progressive-agreement-for-trans-pacific-partnership-cptpp) ar GOV.UK

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/wppn-01-24-newidiadau-i-brosesaun-dilyn-y-du-yn-dod-yn-aelod-or-cptpp-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).